



Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Tachwedd 2021

CDLI Newydd Caerdydd

Opsiynau ar gyfer twf tai a
swyddi a dulliau posibl o
ddarparu ar gyfer twf

PAPUR YMGYNGHORI

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English



www.cdllcaerdydd.co.uk



02920 872087



CDL@caerdydd.gov.uk




Cyflwyniad

Rydym yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLL) newydd ar gyfer Caerdydd i ddisodli'r CDLL presennol. Enw'r cynllun newydd fydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd.

Bydd y CDLL Newydd yn helpu i siapio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir, gan sicrhau manteision i gymunedau a'r economi a nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu.

Mae llawer o gamau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol fel y nodir isod.



Bydd y CDLL yn sefydlu'r lefel briodol o dwf ar gyfer Caerdydd dros gyfnod y cynllun 2021 - 2036. Bydd hefyd yn nodi'r safleoedd datblygu y bydd eu hangen i ddarparu ar gyfer y lefel twf y cytunwyd arni. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun, hoffai'r Cyngor gael eich barn ar opsiynau ar gyfer lefelau twf yn y dyfodol a sut y gellid cyflawni hyn. Ar hyn o bryd yn y broses, bydd eich barn yn ein helpu i baratoi cynllun drafft o'r enw y Strategaeth a Ffefrir.

Cewch gyfle i roi sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir yn hydref 2022 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Hoffem gael eich barn ar y ddau bwnc canlynol:

1. Lefelau tai a thwf swyddi yn y dyfodol i Gaerdydd.
2. Dulliau posibl o ddarparu ar gyfer twf.

Gallwch wneud sylwadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 30 Tachwedd 2021 a 8 Chwefror 2022.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a lleisio'ch barn mewn gwahanol ffyrdd:

- Mynychu un o'r digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb sy'n digwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Ymweld â'n Hystafell Ymgynghori Rithwir yn www.CDLLCaerdydd.co.uk a chwblhau'r arolwg ar-lein
- E-bost: CDLL@caerdydd.gov.uk
- Trwy'r post i'r: Tim CDLL, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

1. Opsiynau ar gyfer lefelau tai a thwf swyddi yn y dyfodol

Mae angen i'r cynllun newydd ddarparu ar gyfer twf mewn cartrefi a swyddi newydd yn y ddinas am y pymtheg mlynedd nesaf hyd at 2036.

Gall twf helpu gyda'r canlynol:

- Diwallu'r angen am gartrefi newydd a gynhyrchir gan y twf naturiol ym mhoblogaeth y ddinas;
- Diwallu'r angen brys ac a brofwyd am dai fforddiadwy newydd i bobl sy'n profi digartrefedd a phobl ar restr aros y Cyngor; a
- I ddiwallu'r angen am gartrefi newydd a ddaw gan bobl sy'n symud i'r ddinas i fyw a gweithio;
- Bodloni dyheadau economaidd y ddinas fel sbardun economaidd i Ranbarth De-ddwyrain Cymru;
- Darparu swyddi i gwrdd â'r cynnydd ym mhoblogaeth y ddinas dros y pymtheg mlynedd nesaf; a
- Lleihau diweithdra a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ledled y ddinas.

Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn cyflwyno tri opsiwn twf i ddiwallu'r anghenion hyn. Ar gyfer pob opsiwn rhoddir ffigur ar gyfer nifer y cartrefi newydd a'r nifer a ragwelir o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun fel y dangosir yn Nhabl 1.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ar wahanol opsiynau strategol ac maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio eu ffigurau am amcanestyniad aelwydydd awdurdodau lleol fel man cychwyn ar gyfer asesu gofynion yn y dyfodol.

Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru (2018) yn seiliedig ar gyfraddau blaenorol yn awgrymu bod angen tua 900 o gartrefi y flwyddyn ar gyfer oes y cynllun. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y 10 mlynedd diwethaf lle gwelsom ddarparu rhy ychydig o dai i ddiwallu ein hanghenion tai.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Caerdydd yn Ardal Twf Cenedlaethol yn Cymru'r Dyfodol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn cydnabod mai Caerdydd fydd y prif anheddiad yn y rhanbarth o hyd, a'i thwf wedi'u siapiaio gan farchnadoedd tai a chyflogaeth cryf.

Yr opsiynau a amlinellir yw cynorthwyo trafodaeth a chaniatáu i bobl ystyried gwahanol lefelau o dwf mewn swyddi a chartrefi.

Opsiwn A yw'r hyn a ystyriwn yn sefyllfa waelodlin, gan barhau'n gyffredinol â'r lefelau twf diweddar, tra bod Opsiwn B ac C yn edrych ar ddarparu mwy o gartrefi a thai fforddiadwy cysylltiedig.

Credwn fod angen cyflogaeth uwch a thwf economaidd ar y ddinas, ac mae hyn wedi'i gefnogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Unwaith eto, mae Opsiwn A yn cynnig yr hyn a ystyriwn yn senario sylfaenol o ran twf swyddi, tra bod Opsiwn B ac C yn edrych ar lefelau swyddi uwch.

I'ch helpu i ddatblygu eich barn, darparwyd rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am lefel a natur y cartrefi newydd sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r tri opsiwn twf (gweler Tabl 2) ac ar gyfradd hanesyddol adeiladu cartrefi newydd yn y ddinas (gweler Tabl 3).

Dylid nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i asesu'r ffigurau diweddaraf a mwyaf priodol i'w defnyddio wrth i'r gwaith ar y CDLL fynd rhagddo.

Fel y gwelir o dabl 1, mae'r banc tir ar gyfer anheddau sydd â chaniatâd cynllunio neu sy'n aros i gytundeb cyfreithiol gael ei lofnodi yn sylweddol gyda thua 15,400 o gartrefi.

Mae'r banc tir hwn yn cynnwys nifer sylweddol o safleoedd tir glas a ddyrennir yn y CDLL mabwysiedig presennol ac sydd eto i'w hadeiladu. Gan fod y safleoedd hyn yn ymrwymadau ag iddynt ganiatâd cynllunio, cânt eu dwyn yn eu blaen i'r cynllun newydd, er nad ydynt wedi'u hadeiladu eto, maent yn ffurfio elfen sylweddol o'r ddarpariaeth dai newydd ar gyfer y CDLL newydd.

Yn olaf, nodwch, y gallai'r opsiwn terfynol a ddewisir a gyflwynir yn y Strategaeth a Ffeirir fod yn un o'r tri opsiwn a gyflwynir yn y ddogfen hon neu ffigur gwahanol a ystyrir yn briodol yn dilyn safbwyntiau a roddir yn y broses ymgynghori hon a dadansoddi pellach.

Rhowch eich barn ar yr opsiynau ar gyfer twf drwy gwblhau'r arolwg ar-lein yn www.cardiffldp.co.uk neu ddanfon eich sylwadau at CDLL@caerdydd.gov.uk



Tabl 1: Opsiynau Twf

	Disgrifiad	Rhesymeg dros yr Opsiwn
A O P S I W N	Cyfanswm o tua 19,000 o gartrefi newydd (Gofyniad gweddilliol am 2,140 o gartrefi newydd ychwanegol) Cyfanswm o tua 30,000 o swyddi newydd Ar ôl ystyried y cartrefi y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddod yn eu blaen dros gyfnod y cynllun i gyflawni'r opsiwn hwn, rhaid i'r cynllun ddod o hyd i safleoedd ar gyfer 2,140 o gartrefi newydd ychwanegol. Mae hyn yn cyfateb i: 1,267 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036)	Mae hyn yn seiliedig ar darged twf economaidd y Cyngor dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae'n modelu effaith poblogaeth ar dwf cyflogaeth blyneddol cyfartalog o +1,600 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun. Maent yn cymryd mudo net o 740 o bobl y flwyddyn. Mae'n cyflawni dyheadau economaidd y Cyngor
B O P S I W N	Cyfanswm o tua 24,000 o gartrefi newydd (Gofyniad gweddilliol am 7,640 o gartrefi newydd ychwanegol) Cyfanswm o tua 32,300 o swyddi newydd Ar ôl ystyried y cartrefi y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu dwyn yn eu blaen dros gyfnod y cynllun i gyflawni'r opsiwn hwn, rhaid i'r cynllun ddod o hyd i safleoedd ar gyfer 7,640 o gartrefi newydd ychwanegol. Mae hyn yn cyfateb i: 1,600 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036)	Opsiwn a arweinir gan anheddau yn seiliedig ar bolisi. Mae'n modelu effaith poblogaeth twf blyneddol cyfartalog o +1,600 o anheddau'r flwyddyn dros gyfnod y cynllun Mae'n cydymffurfio'n gyffredinol ag amcanion Ardal Twf Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol sy'n ymwneud â thai a thwf swyddi. Gallai gyflawni dyheadau economaidd y Cyngor Mae'n darparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion a brofwyd. Ar hyn o bryd mae 7,770 o ymgeiswyr ar y rhestr aros am dai gan gynnwys 514 o ymgeiswyr sy'n ddigartref. Yn adfywio ardaloedd defnydd cymysg yn y ddinas.
C O P S I W N	Cyfanswm o tua 30,500 o gartrefi newydd (Gofyniad gweddilliol am 14,790 o gartrefi newydd ychwanegol) Cyfanswm o tua 43,000 o swyddi newydd Ar ôl ystyried y cartrefi y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu dwyn yn eu blaen dros gyfnod y cynllun i gyflawni'r opsiwn hwn, rhaid i'r cynllun ddod o hyd i safleoedd ar gyfer 14,790 o gartrefi newydd ychwanegol. Mae hyn yn cyfateb i: 2,033 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun (2021 i 2036)	Yn seiliedig ar ffigurau amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2014 ac yn cyfateb i lefelau twf a gynhwysir yn y CDLL mabwysiedig. Mae'r amcanestyniadau hyn yn defnyddio data poblogaeth hanesyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2001 a 2014. Mae'n cydymffurfio'n gyffredinol ag amcanion Ardal Twf Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol sy'n ymwneud â thai a thwf swyddi Gallai gyflawni dyheadau economaidd y Cyngor Mae'n darparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion a brofwyd. Ar hyn o bryd mae 7,770 o ymgeiswyr ar y rhestr aros am dai gan gynnwys 514 o ymgeiswyr sy'n ddigartref. Mae'n adfywio ardaloedd defnydd cymysg yn y ddinas Mae'n darparu mwy o ddewis a chyflenwad o safleoedd tai.

Tabl 2: Esboniad o'r gofyniad cartrefi newydd ar gyfer pob opsiwn

Cyflenwad tai sy'n hysbys		Nifer y Cartrefi
1	Cartrefi sy'n cael eu codi ar hyn o bryd Cartrefi oedd yn cael eu codi ar 1 Ebrill 2021	2,196
2	Y "Banc Tir" Cartrefi â chaniatâd cynllunio neu a oedd yn aros i lofnodi cytundeb cyfreithiol ar 1 Ebrill 2021 (gweler yr addasiad yn rhes 7)	13,185
3	Is-raniad yr anheddau presennol Cyfrifir y ffigur drwy gymhwyso'r gyfradd ar gyfer y 10 mlynedd ddiwethaf (h.y. 106 rhwng 2011/12 a 2020/21) i gyfnod y cynllun 15 mlynedd	159
4	Safleoedd Annisgwyl yn dod i'r amlwg Tir y gellir ei ddatblygu yn y dyfodol ond nad yw wedi ei ddyrannu yn y cynllun. Mae'r ffigur yn seiliedig ar 70% o'r gyfradd dros y 10 mlynedd ddiwethaf (2011/12 i 2020/21)	6,581
Tai a gollwyd dros gyfnod y cynllun		Nifer y Cartrefi
5	Newid Defnydd i ddefnyddiau eraill Newid defnydd cartrefi i ddefnyddiau eraill at ddibenion eraill. Cyfrifir y ffigur drwy gymhwyso'r gyfradd dros y 10 mlynedd ddiwethaf (h.y. 39 rhwng 2011/12 a 2020/21) i gyfnod y cynllun 15 mlynedd.	-59
6	Cartrefi wedi'u dymchwel Cartrefi wedi'u dymchwel. Cyfrifir y ffigur drwy gymhwyso'r gyfradd dros y 10 mlynedd ddiwethaf (h.y. 443 rhwng 2011/12 a 2020/21) i gyfnod y cynllun 15 mlynedd	-665
7	Addasiad Mae'n annhebygol y bydd yr holl gartrefi sydd â chaniatâd cynllunio ac yn amodol ar gytundeb cyfreithiol yn cael eu codi oherwydd cyfyngiadau ac ystyriaethau hyfywedd. Mae'r ffigur yn ffigur bras sy'n seiliedig ar ostyngiad o 20% yn y cartrefi a gynhwysir yn y banc tir (h.y. gostyngiad o 20% yn rhes 2).	-2,637
Cyfanswm nifer y cartrefi a ddarperir drwy'r dulliau uchod		18,760
Gofyniad sy'n weddill ar gyfer Opsiwn A (19,000 o gartrefi ynghyd â lwfans hyblygrwydd o 10% (1,900) minws 18,760 a ddarperir drwy'r dulliau uchod = 2,140)		2,140
Gofyniad sy'n weddill ar gyfer Opsiwn B (24,000 o gartrefi ynghyd â lwfans hyblygrwydd o 10% minws 18,760 a ddarperir drwy'r dulliau uchod = 7,640)		7,640
Gofyniad sy'n weddill ar gyfer Opsiwn C (30,500 o Gartrefi ynghyd â lwfans hyblygrwydd o 10% (3,050) minws 18,760 a ddarperir drwy'r dulliau uchod = 14,790)		14,790

Tabl 3: Cyfradd cwblhau adeiladu tai yn y gorffennol ar gyfer Caerdydd

Cyfnod amser	Cyfartaledd y cartrefi a adeiladwyd fesul blwyddyn
5 mlynedd diwethaf (2016 i 2021)	1,044
10 mlynedd diwethaf (2011 i 2021)	832
15 mlynedd diwethaf (2006 i 2021)	1,070
1981 i 1991	1,412
1991 i 2001	1,122
2001 i 2011	1,776
2011 i 2021	832
Dwy flynedd ddiwethaf (2019/21)	1,103
Y flwyddyn uchaf erioed (2006/07)	2,368



2. Dulliau posibl mewn egwyddor o ddarparu ar gyfer twf

Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn ystyried dulliau gwahanol y gellid darparu'r twf.

Roedd y paneli blaenorol yn nodi'r opsiynau arfaethedig ar gyfer lefelau twf ar gyfer tai a swyddi yng Nghaerdydd i ddiwallu'r angen a nodwyd. Fel y dangosir yn Nhabl 2 mae nifer sylweddol o ymrwmiadau gan gynnwys safleoedd tir glas wedi'u dyrannu yn y CDLL mabwysiedig presennol sydd eto i'w hadeiladu.

Gan fod y safleoedd hyn yn ymrwmiadau ag iddynt ganiatâd cynllunio, cânt eu dwyn yn eu blaen i'r cynllun newydd, er nad ydynt wedi'u hadeiladu eto, maent yn ffurfio elfen sylweddol o'r ddarpariaeth dai newydd ar gyfer y CDLL Newydd. Mae Tabl 2 yn nodi'r angen sy'n weddill am bob un o'r opsiynau twf.

Yr angen am dai sy'n weddill sydd wedyn angen ei fodloni yn y ddinas.

Wrth i ni barhau i gasglu tystiolaeth i lywio'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir, rydym yn ceisio barn ar y gwahanol ffyrdd y gellid darparu ar gyfer y lefelau twf arfaethedig a nodir yn yr adran flaenorol a lle mewn egwyddor, y gellid lleoli datblygiadau newydd yng Nghaerdydd ond nid ydym yn edrych ar fanylion safleoedd.

Ar hyn o bryd, ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch lle y dylid lleoli cartrefi a swyddi newydd y dyfodol. Felly, mae'n bwysig bod cymaint o bobl â phosibl yn cael dweud eu dweud i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan wneir penderfyniadau.

Er mwyn helpu'r drafodaeth, wedi eu gosod ger bron isod y mae 8 modd posibl o ddarparu ar gyfer y twf tai sy'n weddill y gellid ei ystyried fel rhan o'r strategaeth ddatblygu ar gyfer Caerdydd. Er mwyn helpu i ddeall, darperir sylwebaeth ar gyfer pob opsiwn gyda rhai ystyriaethau cyffredinol.

Mae pob opsiwn yn ceisio

- cefnogi Caerdydd fel sbardun allweddol ar gyfer twf, fel rhan o Ardaloedd Twf Strategol fel y'u nodir yng Nghymru'r Dyfodol;
- canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a'r egwyddorion creu lleoedd;
- alinio ag ymagwedd Un Blaned Caerdydd – i ddatgarboneiddio'r ddinas a dod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030, tra'n creu cyfleoedd economaidd a hyrwyddo llesiant cymdeithasol.

Opsiwn 1: Estyniad pellach i'r Ymrwymadau Safleoedd Strategol presennol

- Roedd twf a datblygiad yn canolbwyntio ar dwf o amgylch y Safleoedd Tai Strategol presennol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a bennwyd yn flaenorol eu bod y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf ar raddfa strategol. Byddai angen asesiad pellach i nodi maint y twf sy'n bosibl mewn lleoliadau penodol;
- Yn ychwanegu at y patrwm datblygu presennol a'r buddsoddiad arfaethedig mewn seilwaith megis gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a darparu ysgolion newydd;
- Oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir glas, byddai'n darparu mwy o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref;
- Yn darparu gwell ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai.

Opsiwn 2: Dwysáu Trefol yn seiliedig ar strategaeth tir llwyd yn unig

- Twf a datblygiad sy'n canolbwyntio oddi mewn i ffin anheddiad gan gynyddu capasiti'r ardal drefol ac annog dwyseddau uwch mewn lleoliadau priodol;
- Diogelu ardaloedd tir glas y tu allan i ffin yr anheddiad;
- Oherwydd y costau sy'n gysylltiedig ag adfer safleoedd tir llwyd, gallai darparu llai o dai fforddiadwy i ddiwallu angen teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref;
- Llai o amrywiaeth a dewis o safleoedd a mathau tai;

- Byddai'n helpu i sicrhau datblygiad tir llwyd;
- Byddai angen sicrhau bod seilwaith gwyrdd a choridoriau cysylltiedig yn cael eu diogelu;
- Byddai'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy ac yn adeiladu ar seilwaith sy'n bodoli eisoes.

Opsiwn 3: Adnewyddu ac adfywio yn seiliedig ar safleoedd tir llwyd defnydd cymysg

- Fel yn achos Opsiwn 2 canolbwyntir yn gryf ar dwf a datblygiad o fewn ffin y setliad gan wneud y mwyaf o gapasiti'r ardal drefol ac annog dwyseddau uwch mewn lleoliadau priodol ond wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o adfywio safleoedd tir llwyd defnydd cymysg a phrosiectau adnewyddu
- Yn cefnogi ardaloedd lle gall adnewyddu trefol, dwysáu neu gyfleoedd ar gyfer ailddatblygu tir llwyd gael eu cefnogi gan welliannau trafnidiaeth gyhoeddus megis gorsafoedd rheilffordd newydd.
- Yn gwella trafnidiaeth gynaliadwy ac adeiladu ar y seilwaith sy'n bodoli eisoes
- Yn cefnogi economi gymysg drwy gydbwysu swyddi a thwf tai
- Yn diogelu ardaloedd tir glas y tu allan i ffin yr anheddiad
- Oherwydd y costau sy'n gysylltiedig ag adfer safleoedd tir llwyd, gallai darparu llai o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Llai o ystod a dewis o safleoedd a mathau o dai
- Byddai'n helpu i sicrhau datblygiad ac adfywio tir llwyd

Opsiwn 4: Twf yn seiliedig ar ganolfannau dosbarth a lleol yn unol â chysyniad dinas y pentrefi

- Fel yn achos Opsiwn 2 ond mae'r ffocws ar y rhwydwaith presennol o ganolfannau ardal a lleol sy'n darparu defnydd mwy cymysg, a dinas gerddadwy a chynaliadwy
- Yn cefnogi darparu cymdogaethau 20 munud
- Yn cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol cryfach yn y lleoliadau mwyaf hygyrch / cryfhau rôl bresennol canolfannau ardal a lleol / dinas y pentrefi
- Yn gwella trafndiaeth gynaliadwy ac adeiladu ar y seilwaith sy'n bodoli eisoes
- Yn diogelu ardaloedd tir glas y tu allan i ffin yr anheddiad
- Oherwydd y costau sy'n gysylltiedig ag adfer safleoedd tir llwyd, gallai darparu llai o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Llai o ystod a dewis o safleoedd a mathau tai
- Byddai'n helpu i sicrhau datblygiad ac adfywio tir llwyd .

Dewis 5: Twf yn seiliedig ar nodau trafndiaeth

- Fel yn achos Opsiwn 2 ond yn canolbwyntio datblygiadau mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau/cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus da
- Mae'r pwyslais ar y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus presennol a sicrhau datblygiad sydd mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion cymunedau sy'n bodoli eisoes a rhai'r dyfodol i fod â chysylltiadau da â rhwydwaith teithio cynaliadwy
- Yn cefnogi ardaloedd lle gall adnewyddu neu ddwysáu trefol, neu gyfleoedd ar gyfer ailddatblygu tir llwyd gael eu cefnogi gan welliannau trafndiaeth gyhoeddus fel gorsafoedd rheilffordd newydd
- Yn diogelu ardaloedd tir glas y tu allan i ffin yr anheddiad
- Oherwydd y costau sy'n gysylltiedig ag adfer safleoedd tir llwyd, gallai darparu llai o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Llai o ystod a dewis o safleoedd a mathau tai
- Byddai'n helpu i sicrhau datblygiad ac adfywio tir llwyd .



Dewis 6: Coridorau twf tramwy cyhoeddus strategol

- Twf a datblygiad yn canolbwyntio ar safleoedd tir glas ar hyd coridorau tramwy cyhoeddus newydd
- Yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus fel cysylltiadau a gorsafoedd rheilffyrdd newydd
- Gwella trafnidiaeth gynaliadwy ac adeiladu ar seilwaith sy'n bod yn barod
- Oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir glas gallai darparu mwy o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Yn darparu gwell ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai.

Dewis 7: Opsiwn 7 Ardaloedd twf Maes Glas gwasgaredig

- Twf a datblygiad sy'n canolbwyntio y tu allan i ffin yr anheddiad ar amrywiaeth o ardaloedd twf tir glas gwasgaredig
- Oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir glas gallai darparu mwy o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Yn darparu gwell ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai.

Dewis 8: Opsiwn 8: Cyfuniad gwasgaredig o dir llwyd a maes glas

- Y twf a datblygiad yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ardaloedd twf tir llwyd a glas gwasgaredig o fewn a thu allan i ffin yr anheddiad
- Byddai'n arwain at golli llai o feysydd glas
- Oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir glas gallai darparu mwy o dai fforddiadwy na strategaeth tir llwyd yn unig ac yn helpu i ddiwallu anghenion teuluoedd ar y rhestr aros am dai a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ddigartref
- Yn darparu gwell ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai.

Ar hyn o bryd wrth baratoi'r CDLL newydd, mae'r holl opsiynau'n cael eu cyflwyno fel opsiynau posibl posibl i ennyn trafodaeth yn hytrach na'r opsiynau a ffefrir.

Gallai'r strategaeth a ffefrir gynnwys elfennau o nifer o opsiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn a allai, o'u cyfuno, ddarparu'r tai a'r twf swyddi gofynnol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Bydd gwaith technegol pellach yn cael ei wneud ar yr opsiynau gofodol cyn cytuno ar yr opsiynau gofodol a ffefrir. Bydd eich adborth o'r ymgynghoriad hwn a'r gwaith technegol pellach yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir yr ymgynghorir arni yn hydref 2022.

Rhowch eich barn ar yr opsiynau ar gyfer twf drwy gwblhau'r arolwg ar-lein yn

www.CDLLCaerdydd.co.uk neu anfon eich sylwadau at CDLL@caerdydd.gov.uk

